PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 23 IONAWR 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Jones(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Lay, Ahmed, Asghar Ali, Driscoll, Gordon, Hudson, Jacobsen a/ac Jones-Pritchard |

55 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Congreve a Sattar

56 : COFNODION

Cymeradwywyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2018 yn wir gofnod.

57 : DATGAN BUDDIANNAU

58 : DEISEBAU

Cais Rhif, 18/02674/MNR, Unedau Cardiff Deep Clean Specialists Ltd,
1-4 Lôn Tŷ Mawr, Ystum Taf – cais wedi'i dynnu'n ôl gan yr ymgeisydd.

59 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor yr atodlen o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Pwyllgor benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo ac yn ôl yr argymhellion a nodir yn adroddiad Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y penderfyniad yn unol ag Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990).

# CEISIADAU A GANIATEIR

18/01639/MJR – TREDELERCH

Tir ar Ystad Diwydiannol Ffordd Lamby
Codi cyfleuster trosglwyddo gwastraff peryglus newydd ynghyd â mynedfa, maes parcio a gwasanaethu perthnasol.

Yn amodol ar ychwanegu Amod 5 a fydd yn nodi:

“Er gwaethaf nad yw'r cynlluniau yn darparu unrhyw fanylion ar gyfer llifoleuadau eto, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn eu cymeradwyo gan ddarparu ar gyfer llifoleuadau a gaiff eu gweithredu yn unol â'r manylion a gymeradwyir”.

# CEISIADAU A GANIATEIR WRTH WEITHREDU RHWYMEDIGAETH GYNLLUNIO YN UNOL AG ADRAN 106 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990:

18/02500/MNR – PEN-Y-LAN

CANOLFAN DYSGU OEDOLION HOWARDIAN, HAMMOND WAY
Datblygu 43 o anheddau preswyl (defnydd Dosbarth C3, gan gynnwys tai fforddiadwy), mynediad i gerbydau a cherddwyr, tirlunio, draeniau, gwaith seilwaith a pheirianneg perthnasol.

Yn amodol ar y canlynol:

“Dileu dyluniad ‘184020_A01_A3 Mynediad Cyffredinol i Safle a Lleiniau Gweledig' oddi ar y rhestr yn Amod 2”

Yn amodol ar ddiwygio Amod 29 fel a ganlyn:

“Cyn dechrau gwaith ar y datblygiad o unedau preswyl, caiff manylion am faes parcio beiciau diogel â chysgod eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol eu cymeradwyo a gweithredir yr y rheiny wedyn yn unol â’r gymeradwyaeth cyn dechrau defnyddio’r unedau preswyl”.

Yn amodol ar Amod 31 ychwanegol a fydd yn darllen:

“Er gwaethaf y cynlluniau wedi eu cymeradwyo a chyn dechrau datblygu ar y safle, cyflwynir manylion terfynol o ddeunyddiau gosod arwyneb ffyrdd a phalmentydd a phennu ymylon cerbytffyrdd i’w cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a gweithredir arnynt yn ôl y gymeradwyaeth hon”

Yn amodol ar y diwygiadau canlynol:

“Dylid newid y cyfeiriad at bolisi CDLl H6 gyda pholisi EN6 ac EN8 yn y rhesymau ar gyfer amoda 12-15 (cynhwysol).

18/02519/MJR – TREDELERCH

YSGOL UWCHRADD Y DWYRAIN, HEOL CASNEWYDD
Cais cynllunio llawn ar gyfer y datblygiad preswyl arfaethedig o 214 o gartrefi sy’n cynnwys 149 o gartrefi marchnad gyffredinol a 65 o dai fforddiadwy (gan gynnwys bloc byw annibynnol i letya pobl hŷn gyda 44 o welyau) ynghyd âr' seilwaith perthnasol.

Yn amodol ar Amod 38 ychwanegol:

“Cyn dechrau datblygu, cyflwynir manylion cysylltiad i gerddwyr o’r ffordd beicio/llwybr cerdded i safle y datblygiad arfaethedig a nodir yn y cynlluniau sydd

wedi cymeradwyo i gytuno arnynt yn yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhoddir y cynllun cymeradwy ar waith yn unol â’r manylion cymeradwy’.

Yn amodol ar Amod 39 ychwanegol a fydd yn darllen:

“Cyn meddiannu’r datblygiad a ganiateir am y tro cyntaf, cyflwynir manylion bwrdd dehongli hanesyddol a fydd yn esbonio hanes a phwysigrwydd y gofeb am Wersyll Cae’r Castell (GM216) yn ysgrifenedig i’w gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a chaiff ei osod yn unol â’r gymeradwyaeth hon. Caiff y bwrdd dehongli a gymeradwyir wedyn ei gadw a’i gynnal mewn cyflwr da a darllenadwy.

Yn amodol ar ddiwygio cyfeiriadau i rifau polisi’r CDLl yn y rhesymau am amodau:

“Dylid cyfnewid cyfeiriad at bolisi H5 y CDLl gyda pholisi KP5 yn y rhesymau am amodau 21-27 (cynhwysol), amod 29 a 23. Dylid cyfnewid cyfeiriad at bolisi H6 y CDLl gyda pholisi EN6 yn y rhesymau am amodau 11-14 (cynhwysol).”

Yn ddarostyngedig i ddiwygiad i Amod 35 sydd i ddarllen:

“Er gwaethaf y cynlluniau cymeradwy a cyn i waith datblygu ddechrau ar y safle cyflwynir asesiad o lwybr troi cerbydau yn ysgrifenedig i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.”

Yn ddarostyngedig i ddiwygiad i Amod 37 sydd i ddarllen:

“Caiff y cysylltiad i gerddwyr sydd eisoes yn bodoli rhwng Caer Castell Place i Heol Casnewydd ei gynnal a chadw nes y crëir y llwybr beicio/cerdded ar hyd priffordd yr ystad gan gysylltu Caer Castell Place â Heol Casnewydd.”

# CEISIADAU WEDI’U GOHIRIO

18/02698/MJR – CYNCOED

19 LLANDENNIS AVENUE
Dymchwel yr adeilad deulawr presennol a’r garej i ddatblygu adeilad tri llawr, 6 ystafell wely, gyda garej, pwll nofio, tŷ pwll a gofod amwynderau.

RHESWM: Er mwyn i ymweliad safle â'r lleoliad hwn gael ei gynnal.

# CEISIADAU A DYNNWYD YN ÔL

18/02674/MNR – YSTUM TAF

CARDIFF DEEP CLEAN SPECIALIST LTD, UNEDAU 1-4, LÔN TŶ MAWR
Estyniadau un llawr ac estyniad i’r llawr cyntaf i greu uned ddeulawr.

60 : CEISIADAU WEDI EU PENDERFYNU GAN BWERAU DIRPRWYEDIG - RHAGFYR 2018

Rhagfyr 2018

61 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim.

62 : DYDDIAD AR GYFER Y CYFARFOD NESAF – 13 CHWEFROR 2019 AM 10:30 AM